Hen Gwestiynau Arholiad

Cwestiynau Eraill

(Gaeaf 2005)

6. Hafaliad y gromlin C yw

$$y = 4x^2 - 7x + 11,$$

a hafaliad y llinell L yw

$$y = 5x + k\ ,$$

lle mae k yn gysonyn. O wybod bod L yn croestorri C mewn dau bwynt gwahanadwy *(distinct)*, dangoswch fod $k > 2$. [6]

(Haf 2006)

8. Datryswch yr anhafaleddau canlynol.

(a) $1 - 5x < x + 8$ [2]

(b) $(x + 8)(x + 1) < 3x$ [4]

(Gaeaf 2007)

6. Differwch **bob un** o'r canlynol mewn perthynas ag x.

(a) $2x^5 + \dfrac{24}{x^2} - 3\sqrt{x}$ [3]

(b) $x^2(3x + 1)$ [2]

(Haf 2009)

4. *(b)* Defnyddiwch ddull algebraidd i ddatrys yr hafaliadau cydamserol $y = x^2 - x - 7$ ac $y = 2x + 3$. Ysgrifennwch ddehongliad geometregol o'ch canlyniadau. [5]

(Gaeaf 2013)

(b) Defnyddiwch ddull algebraidd i ddatrys yr hafaliadau cydamserol $y = x^2 - x - 9$ ac $y = 2x - 5$.
Ysgrifennwch ddehongliad geometregol o'ch canlyniadau. [5]

(Haf 2016)

5. *(a)* Mynegwch $x^2 + 4x - 8$ yn y ffurf $(x + a)^2 + b$, lle mae a a b yn gysonion sydd angen darganfod eu gwerthoedd. [2]

(b) Defnyddiwch ddull algebraidd i ddatrys yr hafaliadau cydamserol $y = x^2 + 4x - 8$ ac $y = 2x + 7$. [4]

(c) Lluniadwch fraslun sy'n dangos yn geometrig ganlyniadau rhan *(a)* a rhan *(b)*. [4]

(Haf 2017)

6. Datryswch yr anhafaledd $2x^2 + 11x + 12 \geqslant 0$. [3]

(Haf 2018)

6. Darganfyddwch amrediad gwerthoedd x sy'n bodloni'r anhafaledd

$$9x^2 + 16x - 4 > 0.$$ [3]